**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**
**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans**

**WESP 40**
**Ymateb gan : Clwstwr Ysgolion Ysgol Gyfun Ystalyfera**
**Response from : Ysgol Gyfun Ystalyfera Cluster Schools**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| |
|---|
| **Cwestiwn 1** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
| Cytuno'n gryf<br><br>Mae'r deilliannau'r cynlluniau yn briodol, yn addas i'r diben ac yn ffocysu AALl ar flaenoriaethau ieithyddol<br><br>Mae rhai deilliannau yn anodd eu heffeithio gan eu bod yn rhai hir dymor pell (ee cynyddu mwy o ddysgwyr 7 oed / 13 mlwydd oed- mae'r targed 7 mlynedd yn rhy bell er mwyn mesur effaith). Sut gellir mesur cynnydd tymor byr / tymor canol? A ddylid mesur niferoedd dysgwyr 4 oed i ateb hyn?<br><br>Mae cynllunio strategol wedi bod yn wendid mewn AALl ac mae hyn wedi arwain at wasgedd o ran niferoedd neu ddiffyg darpariaeth. Mewn rhai achosion mae wedi arwain at ddiffyg tŵf, ble mae AALl eraill wedi gwneud cynnydd tuag at y targedau<br><br>Yn anffodus gan nad oes canlyniad amlwg i osgoi cyrraedd targedau mae sefyllfa yn gallu datblygu nad yw'r cynlluniau yn ymyrryd ar lefel strategol i dyfu'r sector |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn? |
| Dylai fod monitro mwy manwl o'r targedau<br>Dylai fod atebolrwydd yn dilyn diffygion o ran cynnydd isel |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2 –** Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)? |
| Prif drafferth y cynlluniau yw nad ydynt yn cael eu monitro yn ddigon tynn – mae targedau'r cynlluniau yn canolbwyntio ar gynnydd tymor hir dymor.<br><br>Dylai LlC wneud awdit o ble mae cynnydd o ran y ddarpariaeth / niferoedd ar draws Cymru ac a yw hynny wedi'i adlewyrchu yn y cynlluniau.  Os oes ardaloedd o ddiffyg cynnydd / darpariaeth – dylid cael system o atebolrwydd i AALl sy'n arwain yn yr ardaloedd hynny<br><br>Gan fod Grant Y Gymraeg mewn Addysg bellach wedi ei gyfuno a Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (EIG) – sut yn union yr ariennir y Cynlluniau?  Mae'r diffyg cysylltiad yn mynd i arwain at ddiffyg atebolrwydd.  Gan y dyrennir arian EIG i Gonsortia – sut mae hyn yn clymu gyda Cynlluniau Y Gymraeg AALl unigol? |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn? |
| Gweler uchod |
| **Cwestiwn 3 –** Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)? |
| Nid oes rôl monitro digon tynn.<br><br>Mae diffyg llinyn strategol rhwng arian y grant (EIG) a Chynlluniau strategol y Gymraeg, Consortia ac AALl |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Dylid sicrhau ariannu digonol o'r cynlluniau ar wahan.<br><br>Mae pryder nad yw pob AALL yn ariannu Addysg Cyfrwng Cymraeg ar |

| |
|---|
| yr un lefel nac yn ôl gofynion y sector<br><br>A ddylid ariannu tŵf datblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg (oedran Meithrin / Derbyn) yn fwy hael i sicrhau tŵf? |
| **Cwestiwn 4** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*?<br>(*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)? |
| Mae anghydweld yma.<br><br>Polisi teithio ôl 16?<br><br>Polisi cludiant am ddim cyn 4 oed?<br><br>Niferoedd Cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg – isel iawn mewn rhai AALl<br><br>Arian Ysg 21ain Ganrif – yn sicrhau tŵf o'r oedran cywir / ifanc?<br><br>Hyrwyddo'r Gymraeg yn anffurfiol – cyllido ar draws sectorau<br><br>Polisïau mynediad / cynhwysiant – mae darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn isel – a yw'r Cynlluniau strategol yn uwch oleuo hyn o dan y deilliannau ? os nad yw? pam? a beth a wneir gyda'r wybodaeth hon? |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| ADY / Cynhwysiant – darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy Gymru – a yw'r cynlluniau yn ddigon heriol yn ôl y gofyn yn y maes hwn? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel? |
| Beth yw'r niferoedd o safleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg?<br><br>A yw tâl teithio o oedran cyn ysgol yn lleihau a rhwystro tŵf<br><br>A yw diffyg o ran darpariaeth lleol i blant ifanc yn lleihau / rhwystro tŵf?<br><br>A yw codi tâl teithio addysg ôl 16 yn atal / gosod rhwystrau i ddisgyblion gael mynediad a pharhau oddi fewn i'r sector ar ôl 16?<br><br>A yw'r cynlluniau yn ddigon miniog i ateb y galw yma? |
| Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn? |
| Ariannu lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar wahân i bob AALl<br><br>Ymchwil i ariannu teithio am ddim i blant cyn 4 mlwydd oed o fewn y sector<br><br>Ymchwil i effaith cost tâl ar deithio ôl 16 mewn ardaloedd o Gymru |
| **Cwestiwn 6** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
| 1. Sicrhau monitro cynlluniau mwy gofalus ac atebolrwydd o dargedau tymor byr / canol (yn ogystal a targedau tymor hir)<br><br>2. Ariannu teg o Addysg Cyfrwng Cymraeg – fformiwla gytûn / argymhelliad cytûn gan LlC  (gyda diwedd Grant Y Gymraeg mewn Addysg ac ariannu "ring-fenced" cyfrwng Cymraeg – gall hyn effeithio ar gynllunio a darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| **Cwestiwn 7** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| Mae sefydlu'r Cynlluniau gyda'r argymhelliad i sefydlu Fforymau |

Addysg Cyfrwng Cymraeg yn lleol wedi bod yn gam pwysig gan LlC
Mae hyn wedi creu trafodaeth strategol bwysig o fewn AALl – y cam nesaf yw sicrhau fod y drafodaeth yn effeithio ar bolisi / cynllunio strategol

Dylid sicrhau fod arweiniad rheolaeth uchel o fewn AALl i'r cynlluniau

Dylid pennu cyfrifoldeb o fewn cabinet AALl yn atebol i'r cynllun

Diolch am y cyfle i ymateb.